



Cynllun Corfforaethol MaPS 2026/27

I Rhagair



Mae'n bleser gennyf gyflwyno Cynllun Corfforaethol Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) ar gyfer 2026/27, sef ail flwyddyn gweithredu ein Cynllun Strategol 2025–28. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddwn yn parhau i ddatblygu ein gweledigaeth o ddyfodol ariannol gwell i bawb sydd ei angen, drwy gryfhau'r systemau, y gwasanaethau a'r partneriaethau sy'n cefnogi llesiant ariannol ledled y DU.

Byddwn yn datblygu cyflawni Dangosfwrdd Pensiynau MoneyHelper, gan sicrhau ei fod yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn gallu gweithredu ar raddfa. Yn ogystal â hyn, byddwn yn parhau i ddatblygu ein dull cryfach, ar draws y sefydliad-, o ran profiad cwsmeriaid a hygyrchedd, fel bod gwasanaethau'n gyson, yn reddfodol ac yn gefnogol ar draws pob sianel.

Byddwn hefyd yn ychwanegu at gyfraniad MaPS ar lefel gymunedol a system. Mae hyn yn cynnwys cynnal ac ehangu mynediad at gyngor dyledion lleol o ansawdd uchel, cynyddu cyrhaeddiad ac effeithiolrwydd rhwydwaith Money Guiders, a chefnogi sgysiau agored am arian drwy ymgyrchoedd cenedlaethol a rhaglenni-sy'n seiliedig ar leoedd.

Wrth wraidd hyn oll mae buddsoddiad parhaus yn ein gallu sefydliadol. Byddwn yn adeiladu ar ein seiliau data a digidol, yn defnyddio technoleg a deallusrwydd artiffisial yn gyfrifol, ac yn gweithio gyda phartneriaid ar draws y pedair gwlad i adolygu cynnydd yn erbyn Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol, gan sicrhau bod ein hymdrechion ar y cyd yn parhau i ganolbwyntio ar y canlyniadau yr ydym am eu cyflawni erbyn 2030.

Rwy'n falch o ymrwymiad ac arbenigedd cydweithwyr ar draws MaPS a chryfder ein partneriaethau. Gyda'n gilydd, byddwn yn parhau i sicrhau bod ein gwasanaethau'n hygyrch, yn gynhwysol ac yn canolbwyntio ar y rhai sydd ag angen ein cefnogaeth fwyaf.

Oliver Morley
Prif Swyddog Gweithredol

I Ynghylch MaPS



Gwasanaeth
Arian a
Phensiynau

Sefydlwyd y Gwasanaeth Arian a Phensiynau (MaPS) gan Ddeddf Canllawiau Ariannol a Hawliadau (2018). Rydym yn gorff hyd braich a noddir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), ac a ariennir gan ardollau ar y diwydiant gwasanaethau ariannol a chynlluniau pensiwn.

Mae gwaith MaPS yn cwmpasu pum swyddogaeth statudol, fel yr amlinellir yn y Ddeddf:

- Canllawiau pensiynau – darparu gwybodaeth a chanllawiau am ddim ac yn ddiuedd i aelodau'r cyhoedd ar faterion sy'n ymwneud â phensiynau galwedigaethol a phersonol.
- Cyngor dyledion – darparu, i aelodau'r cyhoedd yn Lloegr, wybodaeth a chynghor am ddim ac yn ddiueddar ddyled
- Canllawiau ariannol – darparu gwybodaeth a chanllawiau am ddim ac yn ddiuedd i aelodau'r cyhoedd, wedi'u cynllunio i wella dealltwriaeth a gwybodaeth pobl am faterion ariannol a'u gallu i reoli eu materion ariannol eu hunain.
- Diogelu defnyddwyr – gweithio gyda'r llywodraeth a rheoleiddwyr i ddiogelu defnyddwyr rhag twyll ariannol a chefnogi ymdrechion y diwydiant gwasanaethau ariannol ehangach i ddiogelu defnyddwyr.

- Strategaeth – gweithio gydag eraill i ddatblygu a chydlynu strategaeth genedlaethol i wella (a) gallu ariannol aelodau'r cyhoedd, (b) gallu aelodau'r cyhoedd i reoli dyledion, ac (c) ddarpariaeth addysg ariannol i blant a phobl ifanc.

Mae gennym hefyd fandad penodol gan y llywodraeth: creu'r bensaerniaeth dechnegol ar gyfer ecosystem dangosfyrddau pensiynau a hwyluso cysylltiad y diwydiant pensiynau â hi. Bydd y rhaglen waith hon yn galluogi unigolion i gael mynediad at eu gwybodaeth bensiwn ar-lein – yn ddiogel ac mewn un lle – gan gefnogi cynllunio gwell ar gyfer ymddeoliad.

Helpwr
Arian

Pension
Wise

wythnos
siarad
arian®

Pensions
Dashboards
Programme



Llywodraeth y DU

Ein strategaeth

Gweledigaeth

“Dyfodol ariannol gwell i bawb sydd mewn angen”

Gorchwyl

“Trwy weithio gyda’n gilydd, rydym yn helpu pobl i reoli eu harian heddiw ac ar gyfer y dyfodol”

Blaenoriaethau strategol

Gwasanaethau rhagorol sy'n gwneud gwahaniaeth

Cydweithio sy'n sicrhau canlyniadau

Gwybodaeth sy'n galluogi

Gallu sy'n trawsnewid



Gofalu



Cysylltu



Trawsnewid

Yn MaPS, mae ein gwerthoedd – **Gofalu, Cysylltu a Thrawsnewid** – wrth wraidd popeth a wnawn. Maen nhw'n diffinio ein perthnasoedd – yn fewnol ac â phartneriaid – gan lywio sut rydym yn cydweithio, yn dylanwadu ar y sector ac yn sbarduno newid ystyrlon. Maen nhw'n arwain y ffordd rydym yn gweithio gyda’n gilydd, gan sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel, cryfhau partneriaethau a gwella llesiant ariannol ledled y DU.

Gallwch ddarllen ein **Cynllun Strategol** tair blynedd yma ar **MaPS.org.uk**.

Gwasanaethau rhagorol sy'n gwneud gwahaniaeth

Rydym yma i helpu pobl i wneud penderfyniadau ariannol gwybodus a chael y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i reoli eu harian yn dda drwy gydol eu bywydau.

Byddwn yn parhau i weithio tuag at yr amcanion a nodir yn ein Cynllun Strategol:

- **Cyflawni dros bobl** – parhau i wella ansawdd ein gwasanaethau, gan helpu i wella bywydau bob dydd.
- **Darparu gwasanaethau cydgysylltiedig o fewn y Gwasanaeth Arian a Phensiynau, a gyda'n partneriaid** – gan ei gwneud yn haws i bobl gael mynediad at y cymorth sydd ei angen arnynt ynghylch eu harian, eu dyledion a'u pensiynau a'i lywio.
- **Dylunio ein gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd fwyaf mewn angen** – gwella ein heffaith ar bobl sy'n wynebu heriau lles ariannol, yn enwedig ar adegau pwysig.



Cydweithio sy'n sicrhau canlyniadau

Mae cyflawni ein gweledigaeth o ddyfodol ariannol gwell i bawb sydd ei angen yn gofyn am weithredu ar y cyd a gwaith tîm gan lawer o bobl a sefydliadau ledled y DU. Mae gan MaPS gyfrifoldeb unigryw a'r gallu i ddod â phobl ynghyd i wneud cynnydd ym maes llesiant ariannol – gan gynnwys adrannau llywodraeth y DU, llywodraethau datganoledig, rheoleiddwyr, diwydiant a sefydliadau a grwpiau perthnasol eraill.

Byddwn yn parhau i weithio tuag at yr amcanion a nodir yn ein Cynllun Strategol:

- **Mynd at bobl lle maen nhw** – cyrraedd llawer mwy o bobl mewn angen gyda chymorth a chefnogaeth o ansawdd uchel, drwy'r unigolion a'r sefydliadau y maen nhw'n yn ymddiried ynddynt.
- **Partner dibynadwy i'r llywodraeth** – cryfhau ein henw da fel partner dibynadwy i helpu llywio a darparu blaenoriaethau sy'n gwella llesiant ariannol.
- **Seilwaith cyngor dyledion a datblygu adnoddau** – helpu i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyngor dyledion ledled y DU.



Gwybodaeth sy'n galluogi gweithredu

Wrth galon ein diben mae'r gallu i ddarparu gwybodaeth arbenigol a chredadwy sy'n arwain at weithredu. Os ydym yn helpu pobl â'u harian drwy ein canllawiau neu'r dangosfwrdd pensiynau, neu'n helpu partneriaid i wneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, rydym yn arbenigwyr ar lesiant ariannol.

Byddwn yn parhau i weithio tuag at yr amcanion a nodir yn ein Cynllun Strategol:

- **Rhannu a hyrwyddo ymchwil a mewnwelediadau** – creu a rhannu gwybodaeth sy'n galluogi penderfynwyr i wneud gwahaniaeth gwirioneddol a pharhaol i lesiant ariannol.
- **Cyflwyno Dangosfyrddau Pensiynau** – galluogi pobl ledled y DU i gael mynediad at eu gwybodaeth bensiwn ar-lein, yn ddiogel ac mewn un lle.
- **Canllawiau ac addysg ariannol** – gwneud ein cynnwys a'n hoffer yn fwy hygyrch ac yn haws eu deall i'r rhai sydd eu hangen fwyaf.



I Gallu sy'n trawsnewid

Mae'r byd yn newid yn gyflym, gyda chynnydd mewn anghenion defnyddwyr sy'n fwyfwy cymhleth, ynghyd â thechnoleg arloesol sy'n dod â chyfleoedd a risgiau mawr i ddefnyddwyr. Yn y cyd-destun hwn, dim ond os oes gennym y bobl iawn, gyda'r galluoedd iawn, yn y lleoedd iawn – ar gyfer heddiw ac ar gyfer y dyfodol – y gallwn gyflawni pethau gwyh.

Byddwn yn parhau i weithio tuag at yr amcanion a nodir yn ein Cynllun Strategol:

- **Technoleg drawsnewidiol** – gwella ein galluoedd craidd ym maes technoleg, data a deallusrwydd artiffisial i ysgogi arloesedd a rhagoriaeth ar gyfer ein defnyddwyr, partneriaid a chydweithwyr.
- **Cyflawni gwerth eithriadol** – sicrhau gwerth am arian drwy wasanaethau mwy cynhyrchiol ac effeithiol a swyddogaethau galluogi mwy effeithlon.
- **Diwylliant sefydliadol cynhwysol ac ystwyth** – galluogi a grymuso ein pobl i chwalu seilos, cydweithio ac addasu i ddiwallu anghenion ein cwsmeriaid mewn byd sy'n newid yn gyflym.



I Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 26/27

Byddwn yn darparu ein **gwasanaethau cyngor a chanllawiau craidd** gyda'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol a'r targedau canlynol:

- Byddwn yn darparu cyngor dyledion i gleientiaid drwy ein darparwyr wedi'u contractio a grantiau cymunedol:
- **85%** boddhad cwsmeriaid
- Cyngor dyledion cenedlaethol a busnes: **625,000** o gleientiaid wedi'u gwasanaethu
- Gwasanaethau cymunedol: **108,000** o gleientiaid wedi'u helpu
- Gorchmynion Rhyddhad Dyledion: **28,000** wedi'u cymeradwyo

Byddwn yn darparu canllawiau ariannol drwy sianeli ffôn, WhatsApp, e-bost a sgwrsio gwe, yn ogystal â chynnwys ar-lein, gan gynnwys amrywiaeth o offer canllawiau ariannol digidol:

- **85%** boddhad cwsmeriaid
- Sesiynau canllawiau ariannol a chwblhau offer digidol: **618,535** wedi'u darparu

Byddwn yn darparu canllawiau pensiynau drwy sianeli teleffon, e-bost a sgwrsio gwe. Byddwn hefyd yn darparu cynnwys ar-lein, gan gynnwys amrywiaeth o offer canllawiau pensiynau digidol:

- **85%** boddhad cwsmeriaid
- Sesiynau canllawiau pensiynau a chwblhau offer digidol: **977,560** wedi'u darparu

Byddwn yn darparu apwyntiadau Pension Wise dros y teleffon, wyneb yn wyneb ac yn ddigidol i bawb sydd ag angen trafod eu rhyddid pensiwn:

- **85%** boddhad cwsmeriaid
- Apwyntiadau Pension Wise: **118,000** o apwyntiadau wedi'u mynychu

Byddwn yn darparu canllawiau a chynnwys digidol cynhwysfawr drwy ein gwefan:

- **75%** boddhad cwsmeriaid



I Yr hyn y byddwn yn ei gyflawni yn 26/27

Byddwn yn gweithredu'r gwasanaethau a'r newidiadau canlynol i'n sefydliad:


- Datblygu aeddfedrwydd gwasanaeth Dangosfwrdd Pensiynau MoneyHelper (MHPD) ymhellach yn y Saesneg ac yn y Gymraeg, gan wreiddio dylunio cynhwysol-sy'n canolbwyntio ar y defnyddiwr a phroffion parhaus. Byddwn yn meithrin hyder yng nghadernid y gwasanaeth drwy waith parhaus ar raddadwyedd, trefniadau cymorth a chyflawni yn erbyn safonau perthnasol Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth, tra hefyd yn cwblhau'r Rhaglen Dangosfyrddau Pensiynau.
- Datblygu ein fframwaith Profiad Cwsmeriaid i wella'r ffordd y mae MaPS yn darparu gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan gwsmeriaid, gan osod modelau, safonau ac ymddygiadau clir i ysgogi profiadau cyson sy'n gwella'n barhaus.
- Cefnogi Comisiynu Cyngor Dyledion Cymunedol drwy ddylunio a darparu cystadleuaeth grantiau ar raddfa fawr sy'n ehangu ac yn cynnal mynediad at gyngor dyledion cymunedol o ansawdd uchel ledled Lloegr, gan sicrhau bod gwasanaethau wedi'u teilwra i anghenion lleol ac yn cyrraedd y rhai sydd fwyaf mewn angen.
- Cwblhau ein rhaglen Gweithredu Gwasanaethau Canllawiau, gan gefnogi cydweithwyr Pension Wise sydd newydd gael eu mewnoli i fabwysiadu diwylliant, systemau ac ymddygiadau MaPS, yn ogystal â gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth.
- Gwreiddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn gyfrifol ledled MaPS i wella effeithlonrwydd, gwella gwasanaethau a chael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau cwsmeriaid.
- Dylunio, darparu a gwerthuso 'Wythnos Siarad am Arian' estynedig, sef ymgyrch flynyddol MaPS sy'n annog pobl i gael sgysiau mwy agored am eu cyllid.
- Gwella'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi rhwydwaith Money Guiders i gyflawni ar raddfa ehangach a dyfnach, gan gynyddu'r cymorth dysgu sydd ar gael i sefydliadau ac ymarferwyr sy'n darparu canllawiau ariannol heb eu rheoleiddio i unigolion neu grwpiau ar raddfa fawr.
- Cyflwyno 'Siarad, Dysgu, Gwneud' fel opsiwn 'mynd ymhellach' ym mhob Hyb Teulu Best Start yn Lloegr yn 2027, a defnyddio cynlluniau peilot a gwerthusiadau i gefnogi ehangu ledled y DU.
- Gweithio gyda phartneriaid llywodraethol a rhanddeiliaid i adolygu Strategaeth y DU ar gyfer Llesiant Ariannol ar draws y pedair gwlad. Byddwn yn asesu'r cynnydd hyd yma ac yn defnyddio'r canfyddiadau i gytuno ar unrhyw ailffocysu ac ailflaenoriaethu sydd eu hangen i gyflawni ein nodau ar gyfer 2030.
- Sicrhau bod hygyrchedd yn cael ei ystyried drwy'r daith gyfan i gwsmeriaid, ar-lein ac all-lein, a bod gwasanaethau'n cael eu hadeiladu o amgylch y rhai y gwyddom sydd fwyaf mewn angen a/neu mewn amgylchiadau bregus.

Cyllideb

Ein cyllideb ar gyfer 26/27 yw £220 miliwn. Rydym yn cael ein hariannu gan dalwyr ardollau a thrwy'r Adran Gwaith a Phensiynau. Cesglir yr Ardoll Pensiynau Gyffredinol (GPL) ar gynlluniau pensiwn gan Yr Awdurdod Rheoleiddio Pensiynau. Cesglir yr Ardoll Gwasanaethau Ariannol (FSL) gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, ac fe'i rhennir yn dair elfen: canllawiau ariannol, cyngor dyledion a chanllawiau pensiynau (ar gyfer canllawiau rhyddid pensiynau).

Gellir priodoli y rhan fwyaf o'n costau'n uniongyrchol i ardollau penodol; er enghraifft, ein gwasanaethau rheng flaen megis y llinell gymorth canllawiau pensiynau, cyngor dyledion neu ganllawiau ariannol. Caiff costau eraill – yn bennaf ar gyfer y swyddogaethau galluogi sy'n cefnogi ein gwaith cyflawni – eu dyrannu rhwng y ddwy ardoll.

Dyraniad 2026/27 wedi'i rannu yn ôl maes ariannu



Dyraniad 2026/27 wedi'i rannu yn ôl blaenoriaeth strategol

